newyddion LLAIS SIR GÂR

Carmarthenshire Voice

Llais Sir Gâr

GWOBRWYON HAMDDEN GWERTH CHWEIL I'W HENNILL!!

Fel ffordd o ddiolch i chi am lenwi'r arolwg amgaeëdig, rhoddir enw pob aelod o'r panel ddychwelodd holiadur, mewn het i ennill Gwobrau Panel Dinasyddion Sir Gaerfyrddin mis Mehefin, pryd bydd modd ennill gwobrwyon hamdden gwerth chweil a roddwyd gan gyngor Sir Caerfyrddin, yn cynnwys:

- **Cyfres o wersi sgïo a byrddio eira i ddechreuwyr ym Mharc Gwledig Pen-bre**
- **Partïon Antur Chwarae Meddal yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin**
- **Aelodaeth ddi-dâl am 6 mis o Glwb Golff Parc Garnant**
- **Defnydd di-dâl am 6 mis o'r Clwb Iechyd a Ffitrwydd a'r pwll nofio yng Nghanolfan Hamdden Dyffryn Aman**
- **Defnydd di-dâl am 6 mis o'r Clwb Iechyd a Ffitrwydd a'r pwll nofio yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin**
- **Nofio faint a fynnwch yn ddi-dâl am 6 mis ym Mhwll Nofio Llanymddyfri**
- **Defnydd di-dâl am 6 mis o'r Clwb Iechyd a Ffitrwydd yng Nghanolfan Hamdden Castell Newydd Emlyn.**

Byddwn yn cysylltu â'r enillwyr i'w hysbysu am y gwobrwyon y maent wedi'u hennill. Pob lwc!

CROESO I'R HOLL AELODAU NEWYDD!

Ymunodd **319 o aelodau newydd** â'r Panel ym mis **Hydref 2002** a dyma sut y mae'r panel ar ei newydd wedd yn edrych:

CIPOLWG AR AELODAU PANEL DINASYDDION SIR GAERFYRDDIN

- Mae cyfanswm o **1,200** o aelodau ar y panel - gyda **610** ohonynt yn fenywod a 586 yn ddynion
- Mae ein haelod ieuengaf yn **17** oed a'r hynaf yn **96**.
- Mae **45%** o aelodau'r panel yn siaradwyr Cymraeg, gall **40%** ddarllen Cymraeg a gall **32%** ysgrifennu Cymraeg.
- Mae **81%** wedi bod yn byw yn Sir Gaerfyrddin ers mwy na 10 mlynedd ac mae **5%** wedi bod yn byw yma ers llai na 2 flynedd.
- Cytuna **93%** o aelodau'r panel fod Sir Gaerfyrddin yn lle braf i fyw ac mae **87%** yn cytuno fod y sir yn lle diogel i fyw.
- Mae gan **13%** o aelodau'r Panel o leiaf un plentyn sy'n mynychu ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin ac mae gan **15%** o leiaf un plentyn sy'n mynychu ysgol uwchradd yn Sir Gaerfyrddin.

AROLWG PANEL 5
(Ionawr – Chwefror 2003)

Derbyniwyd 698 ateb i'r arolwg hwn sef graddfa ymateb cyffredinol o 58%.

Roedd Arolwg 5 yn gofyn am eich barn ar y materion canlynol:

- Y digwyddiadau y dymunech eu gweld yn cael eu cynnal yn Sir Gaerfyrddin fel y gallwn ddatblygu eich syniadau o ran themâu ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol.
- Eich pryderon o ran troseddau yn eich ardal
- Eich profiadau os ydych erioed wedi gorfod ffonio Heddlu Dyfed-Powys, fel y gall Heddlu Dyfed-Powys edrych ar ffyrdd o wella'r ffordd y maent yn delio â galwadau.
- Beth wyddoch am Bwyllgorau Rhanbarthol, y fforymau ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd ledled y sir, a sut y gallwn lunio'r cyfarfodydd i ennyn mwy o ddiddordeb i fynychu'r sesiynau gwerthfawr hyn.

Adran A - Carmarthenshire County Council Events Strategy

Mae mwy na hanner ohonoch, (58%) neu eich teuluoedd, wedi mynychu o leiaf un digwyddiad yn Sir Gaerfyrddin yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a'r pump digwyddiad mwyaf poblogaidd gennych oedd:



Mae Strategaeth Ddigwyddiadau yn cael ei datblygu ar hyn o bryd a bydd y wybodaeth a gasglwyd o'r arolwg hwn yn cael ei defnyddio i ddatblygu digwyddiadau yn y sir yn y dyfodol.

Gwyliwch am eich copi di-dâl o *'Newyddion Cymuned'* am ddigwyddiadau sydd i'w cynnal yn eich ardal! Bydd *Newyddion Cymuned* yn cyrraedd eich cartref ddechrau mis Ebrill, gyda'r rhifyn canlynol ym mis Mehefin.

Adran B - Y Pwyllgorau Rhanbarthol

Yr oedd y rhan fwyaf ohonoch (62%) wedi dweud wrthym nad oeddech wedi clywed am y Pwyllgorau Rhanbarthol o'r blaen, a dim ond 5% ohonoch oedd wedi bod ar gyfyl cyfarfod o'r fath; ac mae hyn yn awgrymu bod angen hybu rhagor ar y cyfarfodydd hyn. Yr oeddech wedi rhoi ar ddeall y byddai'n fwy defnyddiol i chi petai gwybodaeth ar gael am y cyfarfodydd yn Newyddion Cymuned (608 o ymatebion) ac ar ffurf hysbysebion yn y papurau newydd lleol (538 o ymatebion).

Dengys y graff, ar sail yr ymatebion a gafwyd, beth yw'r ffactorau a allai eich annog chi i fynd yn y dyfodol i gyfarfodydd y Pwyllgorau Rhanbarthol yn eich ardal, gan gynnwys arddull y cyfarfodydd, hyd y cyfarfodydd, a'r amserau cynnal:



Mae eich ymatebion wedi eu cynnwys yn yr adroddiad, sef *"Adolygu'r Pwyllgorau Rhanbarthol – Canlyniadau'r Ymgynghoriad a'r Argymhellion"* sydd yn hoelio sylw ar ddatblygiad y Pwyllgorau Rhanbarthol, a roddir gerbron y Cyngor Sir ym mis Mai

Carmarthenshire Voice

Llais Sir Gâr

PANEL DINASYDDION SIR GAERFYRDDIN

AROLWG PANEL 5
(Ionawr – Chwefror 2003)

Adran C - Ofn Troseddau

Tan yn ddiweddar prin iawn oedd y manylion oedd gan Heddlu Dyfed-Powys fesul awdurdod unedol unigol, gan gynnwys Sir Gaerfyrddin, am ofnau pobl mewn perthynas â throseddau gan fod y data a oedd ganddynt yn cwmpasu ardal Dyfed-Powys yn ei chyfanrwydd. Bydd eich ymatebion yn ein galluogi ni i gymharu ofnau pobl a'u dirnadaeth o droseddau yn Sir Gaerfyrddin â'r ystadegau cyfatebol ar gyfer pobl yn ardal Heddlu Dyfed-Powys, a hefyd mewn rhannau eraill o Gymru a Lloegr. Bydd hyn yn golygu bod aelodau'r bartneriaeth diogelwch cymunedol, gan gynnwys yr heddlu a'r awdurdod lleol, yn gallu pennu blaenoriaethau o ran mynd i'r afael ag ofnau penodol pobl yn Sir Gaerfyrddin.

Yr oeddem wedi gofyn faint o ofid yw troseddau i chi, ac yr oeddech wedi dweud wrthym taw'r materion canlynol oedd yn peri'r pryder mwyaf i chi::

- **bod lladron yn torri i mewn i'ch cartref ac yn dwyn rhywbeth (yr oedd 64% yn eithaf pryderus neu'n bryderus iawn ynghylch hyn)**
- **bod lladron yn dwyn eich car (yr oedd 62% yn eithaf pryderus neu'n bryderus iawn ynghylch hyn)**
- **bod dieithriaid yn ymosod arnoch yn gorfforol (yr oedd 55% yn eithaf pryderus neu'n bryderus iawn ynghylch hyn).**

Hefyd yr oeddech wedi dweud eich bod yn pryderu am y canlynol:

- **pobl yn defnyddio neu'n prynu a gwerthu cyffuriau (yr oedd 85% yn eithaf pryderus neu'n bryderus iawn ynghylch hyn)**
- **fandaliaeth, graffiti a mathau eraill o ddifrod bwriadol i eiddo (yr oedd 75% yn eithaf pryderus neu'n bryderus iawn ynghylch hyn)**
- **pobl yn feddw neu'n stwrllyd mewn mannau cyhoeddus (yr oedd 74% yn eithaf pryderus neu'n bryderus iawn ynghylch hyn)**
- **pobl ifainc yn loetran ar y strydoedd (yr oedd 62% yn eithaf pryderus neu'n bryderus iawn ynghylch hyn).**



Yr oedd **69% ohonoch wedi dweud eich bod yn teimlo'n fwy diogel mewn ardaloedd lle mae system Teledu Cylch Cyfyng (C.C.T.V.) ar waith, er bod 23% ohonoch wedi dweud nad yw presenoldeb system C.C.T.V. yn effeithio ar eich ymdeimlad o ddiogelwch.**

Pa mor fodlon yr ydych ar ddatblygiad systemau Teledu Cylch Cyfyng yn Sir Gaerfyrddin?

I gloi, **hoffai 74% ohonoch chi weld y systemau Teledu Cylch Cyfyng yn cael eu datblygu ymhellach yn eich ardal chi.**

Mae eich atebion wedi dangos i ni pa mor fodlon yw'r cyhoedd â datblygiadau camerâu cylch cyfyng yn Sir Gaerfyrddin ac effaith hynny o ran ofn troseddau a faint o gefnogaeth sydd ymysg y cyhoedd i ddatblygu camerâu cylch cyfyng yn y dyfodol.

Adran D - Trefniadau o ran Ateb Galwadau Ffôn

O'r rheiny ohonoch sydd wedi cael achos i ffonio Heddlu Dyfed-Powys yn y gorffennol (44% ohonoch), roedd 70% ohonoch yn fodlon a 18% yn anfodlon â'r gwasanaeth cyffredinol a dderbyniwyd o ran ateb galwadau ffôn. Roedd y mwyafrif ohonoch o'r farn fod eich galwad wedi cael ei thrin yn sensitif (85%) ac yn broffesiynol (88%) a bod y sawl a fu'n siarad â chi wedi cyfathrebu'n effeithiol â chi (86% o'r atebion).

Gofynnwyd beth fyddai orau gennych pe baech yn ffonio gorsafoedd heddlu lleol ac yn wynebu oedi o ran derbyn ateb. Dyma'r atebion a dderbyniwyd:





***Pe bai* rhaid i chi aros eich tro, roedd y rhan fwyaf ohonoch yn meddwl bod 'hyd at 2 funud' yn amser derbyniol.**

Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn edrych ar yr atebion hyn ac yn ceisio gwella'i wasanaeth o ran ateb galwadau ffôn gan aelodau'r cyhoedd.

Heblaw am yr arolygon, rydym yn defnyddio Panel Dinasyddion Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn i holi barn am wasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar eich bywyd dyddiol.

GRWPIAU FFOCWS

- **Cyllideb y Cyngor** – Trefnwyd cyfarfodydd grwpiau ffocws fis Rhagfyr 2002 i drafod materion yn ymwneud â'r gyllideb. Dyma'r tro cyntaf i drigolion y sir gyfrannu at y broses o bennu cyllideb y Cyngor. Yn y dyfodol, rydym yn gobeithio rhoi mwy o gyfle i'r trigolion gyfrannu ar ddechrau'r broses o wneud penderfyniadau.

- **Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor** – Trefnwyd dau gyfarfod grŵp ffocws fis Ionawr i ymgynghori ynghylch Strategaeth Gorfforaethol ddiwygiedig y Cyngor Sir. Bu trafod brwd ar nifer o faterion. Roedd pawb am i'r Cyngor fynd i'r afael â'r blaenoriaethau pwysig canlynol:
  - **Lleihau triwantiaeth**
  - **Helpu pobl i deimlo'n fwy diogel, yn enwedig gyda'r nos**
  - **Gwella cyfleusterau hamdden a'u hyrwyddo**
  - **Darparu gwell cyfleusterau ailgylchu**
  - **Darparu cerdyn hamdden a fydd yn rhoi cyfle i drigolion ddefnyddio cyfleusterau hamdden y Sir am bris gostyngol neu am ddim.**
  - **Cynnig mwy o hyfforddiant a chyfleusterau i bobl ifanc**
  - **Helpu creu hyfforddiant a swyddi o safon yn Sir Gaerfyrddin.**

Mae'r blaenoriaethau hyn wedi cael sylw ac mae'r Strategaeth Gorfforaethol derfynol wedi cael ei hargraffu.

I gael copi o'r Strategaeth Gorfforaethol cysylltwch â'r Adain Polisi Corfforaethol ar y rhif ffôn **01267 224650**, neu anfonwch e-bost at: **polisicorfforaethol@sirgar.gov.uk** neu edrychwch ar wefan y Cyngor: **www.sirgar.gov.uk**

- Bwriedir cynnal y grwpiau ffocws nesaf ym mis Mai, pryd y byddwn yn gwrando ar farn y cyfranwyr am amrywiaeth o faterion plismona.

E-YMGYNGHORI

Mae 383 ohonoch wedi mynegi diddordeb mewn derbyn arolygon ar e-bost ac anfonwyd e-bost atoch fis Mawrth yn gofyn i chi gyfrannu at arolwg electronig ynghylch gwefan Cyngor Sir Caerfyrddin – y tro cyntaf i Banel Dinasyddion Sir Gaerfyrddin ymateb i arolwg o'r fath. Diolch am eich atebion, a fydd yn gymorth i ni ddatblygu'r wefan a sicrhau bod modd i bobl ddod o hyd i'r wybodaeth angenrheidiol yn ddidrafferth.

Os ydych chi am awgrymu testunau ar gyfer arolygon a llythyrau newyddion Llais Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol neu os ydych am anfon unrhyw sylwadau eraill atom da chi cysylltwch â: Sarah J Grierson, Rheolwr Ymgynghori Dros Dro, rhif ffôn **01267 224469**, cyfeiriad e-bost: **ymgynghori@sirgar.gov.uk**



Cyngor Sir Caerfyrddin
Carmarthenshire County Council

Grŵp Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire Local Health Group

PANEL DINASYDDION SIR GAERFYRDDIN